**GORCHYMYN CEFNFFYRDD YR A4076 A'R A40 (HWLFFORDD I ABERDAUGLEDDAU, SIR BENFRO) (GWAHARDDIADAU A CHYFYNGIADAU TRAFFIG DROS DRO) 2023**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffyrdd yr A4076 a'r A40, neu gerllaw iddynt, rhwng Hwlffordd ac Aberdaugleddau, Sir Benfro.

Effaith y Gorchymyn yw gwneud y canlynol dros dro:

i. Gwahardd pob cerbyd rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A4076 a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd.

ii. Gosod terfyn cyflymder o naill ai 40 mya neu 10 mya ar y darnau o gefnffordd yr A4076 a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn.

iii. Gosod terfyn cyflymder o 10 mya ar y darnau o gefnffyrdd yr A4076 a'r A40 a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Dim ond pan fydd gwaith confoi yn digwydd y bydd y terfyn cyflymder o 10 mya yn gymwys ac ni chaniateir goddiweddyd ar yr adegau hyn.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 2 Awst 2023. Disgwylir y bydd y gwaharddiad dros dro yn weithredol dros nos o 19:00 o'r gloch ar 2 Awst hyd 07:00 o'r gloch ar 6 Awst 2023. Disgwylir y bydd y cyfyngiadau cyflymder dros dro a dim goddiweddyd yn weithredol o 00:01 o'r gloch ar 30 Awst 2023 hyd 23:59 o'r gloch ar 9 Medi 2023 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**THE A4076 & A40 TRUNK ROADS (HAVERFORDWEST TO MILFORD HAVEN, PEMBROKESHIRE) (TEMPORARY TRAFFIC PROHIBITIONS & RESTRICTIONS) ORDER 2023**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A4076 and A40 trunk roads between Haverfordwest and Milford Haven, Pembrokeshire.

The effect of the Order is to temporarily:

i. Prohibit all vehicles from proceeding on the length of the A4076 trunk road described in Schedule 1 to this Notice. The alternative route is also described therein.

ii. Impose either a 40 mph or 10 mph speed limit on the lengths of the A4076 trunk road described in Schedule 2 to this Notice.

iii. Impose a 10 mph speed limit on the lengths of the A4076 and A40 trunk roads described in Schedule 3 to this Notice.

The 10 mph speed limit will only apply during convoy working and no overtaking will be permitted at these times.

The Order comes into force on 2 August 2023. The temporary prohibition is expected to operate overnight from 19:00 hours on 2 August until 07:00 hours on 6 August 2023. The temporary speed restrictions and no overtaking are expected to operate from 00:01 hours on 30 August 2023 until 23:59 hours on 9 September 2023 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**ATODLEN 1**
**Gwahardd cerbydau dros dro**

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 190 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square hyd at bwynt 43 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Fadlen, Hwlffordd.

Llwybr arall

Y llwybr arall ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r de fydd mynd ar yr A40 tua'r dwyrain i Gylchfan Pont Canaston, yr A4075 tua'r de i Gylchfan Caeriw, yr A477 tua'r gorllewin i Gylchfan Waterloo, Doc Penfro, yr A477 tua'r gogledd-orllewin i Gylchfan Johnston a'r A4076 tua'r gogledd: i'r gwrthwyneb i gerbydau sy'n teithio tua'r gogledd.

**ATODLEN 2**
**Terfyn cyflymder 40 mya neu 10 mya dros dro a dim goddiweddyd**

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 190 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square hyd at bwynt 43 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Fadlen, Hwlffordd.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 151 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag Old Hakin Road, Hwlffordd hyd at bwynt 55 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U2299 sy'n arwain at Brickhurst Park, Johnston.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 103 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Sunnycroft, Johnston hyd at bwynt 112 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Thornton Road, Steynton.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government

**SCHEDULE 1**
**Temporary prohibition of vehicles**

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 190 metres south of its junction with Salutation Square Roundabout to a point 43 metres east of its junction with Merlin's Bridge Roundabout, Haverfordwest.

Alternative route

The alternative route for southbound vehicles is via the eastbound A40 to Canaston Bridge Roundabout, southbound A4075 to Carew Roundabout, westbound A477 to Waterloo Roundabout, Pembroke Dock, north-westbound A477 to Johnston Roundabout and northbound A4076: vice versa for northbound vehicles.

**SCHEDULE 2**
**Temporary 40 mph or 10 mph speed limit and no overtaking**

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 190 metres south of its junction with Salutation Square Roundabout to a point 43 metres east of its junction with Merlin's Bridge Roundabout, Haverfordwest.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 151 metres south-west of its junction with Old Hakin Road, Haverfordwest to a point 55 metres north of the centre of its junction with the U2299 unclassified road leading to Brickhurst Park, Johnston.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 103 metres south of its junction with Sunnycroft Roundabout, Johnston to a point 112 metres north of its junction with Thornton Road, Steynton.

## ATODLEN 3
## Terfyn cyflymder 10 mya dros dro a dim goddiweddyd

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square, Hwlffordd hyd at bwynt 190 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 43 o fetrau i'r dwyrain o'i chyffordd â Chylchfan Pont Fadlen (gan gynnwys cerbytffordd gylchredol y gylchfan) hyd at bwynt 151 o fetrau i'r de-orllewin o'i chyffordd ag Old Hakin Road, Hwlffordd.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 55 o fetrau i'r gogledd o ganol ei chyffordd â ffordd ddiddosbarth yr U2299 i Brickhurst Park hyd at bwynt 103 o fetrau i'r de o'i chyffordd â Chylchfan Sunnycroft, Johnston.

Y darn o gefnffordd yr A4076 sy'n ymestyn o bwynt 112 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Thornton Road, Steynton hyd at bwynt 140 o fetrau i'r gorllewin o'i chyffordd â Chylchfan Pont Victoria, Aberdaugleddau, gan gynnwys cerbytffordd gylchredol y gylchfan honno.

Y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd â Chylchfan Salutation Square (gan gynnwys ei cherbytffordd gylchredol) hyd at ei chyffordd â Chylchfan Scotchwell, Hwlffordd.

## SCHEDULE 3
## Temporary 10 mph speed limit and no overtaking

The length of the A4076 trunk road that extends from its junction with Salutation Square Roundabout, Haverfordwest to a point 190 metres south of that junction.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 43 metres east of its junction with Merlins Bridge Roundabout (including the circulatory carriageway of the roundabout) to a point 151 metres south-west of its junction with Old Hakin Road, Haverfordwest.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 55 metres north of the centre of its junction with the U2299 unclassified road to Brickhurst Park to a point 103 metres south of its junction with Sunnycroft Roundabout, Johnston.

The length of the A4076 trunk road that extends from a point 112 metres north of its junction with Thornton Road, Steynton to a point 140 metres west of its junction with Victoria Bridge Roundabout, Milford Haven, including the circulatory carriageway of that roundabout.

The length of the A40 trunk road that extends from its junction with Salutation Square Roundabout (including its circulatory carriageway) to its junction with Scotchwell Roundabout, Haverfordwest.